WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llywodraethiant Da wrth Bennu Newidiadau Arwyddocaol i Wasanaethau – **Cyngor Dinas Caerdydd**


Blwyddyn archwilio: 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 120A2017

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae cod adran 45 yn gosod allan yr arfer i'w ddilyn wrth drin ceisiadau a ddisgwylir o awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori gyda thrydydd partïon perthnasol. Yng nghyswllt y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partion perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ail-ddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru at info.officer@audit.wales.

Y tîm a wnaeth y gwaith oedd Allison Rees, Ron Price a Non Jenkins dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys

Mae gan y Cyngor fframwaith clir ar gyfer newidiadau sylweddol i wasanaethau wedi ei gefnogi trwy wella llywodraethiant, ond gellid cymhwyso'r trefniadau yn fwy cyson.


Crynodeb o'r adroddiad

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

Adroddiad manwl

Mae gan y Cyngor fframwaith clir ar gyfer newidiadau sylweddol i wasanaethau wedi ei gefnogi trwy wella llywodraethiant, ond gellid cymhwyso'r trefniadau yn fwy cyson 6

Mae Rhaglen Ddatblygu Sefydliadol y Cyngor yn rhoi fframwaith clir i yrru a llunio newid diwylliant a gwasanaeth arwyddocaol 6

Mae trefniadau llywodraethiant ac atebolrwydd o ran newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau yn glir ac wedi eu deall yn dda 7

Mae gan y Cyngor broses i fantoli cynigion am newid sylweddol mewn gwasanaethau; fodd bynnag, nid yw'n cael ei gymhwyso'n gyson 8

Mae'r Cyngor yn mynd ati i ymwneud â rhanddeiliaid fel sail o wybodaeth i wneud penderfyniadau 10

Mae'r Cyngor yn monitro ei Rhaglen Ddatblygu Sefydliadol fel mater o drefn, ond nid yw gwerthuso effaith newidiadau i wasanaethau unigol wedi ei ddatblygu cystal 12

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gryfhau llywodraethiant a gwneud penderfyniadau, ac wedi ymateb yn gadarnhaol i'n hadroddiadau archwilio 12

# Crynodeb o'r adroddiad

## Crynodeb

1 Mae a wnelo llywodraethiant â'r modd y mae cyrff cyhoeddus yn sicrhau eu bod yn gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, i'r bobl iawn, mewn dull amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol. Mae'n cynnwys y systemau a'r prosesau, a'r diwylliannau a'r gwerthoedd, sy'n cyfarwyddo a rheoli cyrff cyhoeddus a thrwyddynt, maent yn atebol i'w cymunedau, yn ymwneud â hwy a, lle bo hynny'n briodol, yn eu harwain.[1]

2 Mae llywodraethiant da yn hanfodol i stiwardiaeth effeithiol arian cyhoeddus a pharhau i gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus effeithiol y mae pobl yn ymddiried ynddynt. Mae'r hinsawdd ariannol presennol a setliadau llai i lywodraeth leol, yn ogystal â'r galw cynyddol am rai gwasanaethau yn golygu fod pob cyngor yn debyg o barhau i fod angen gwneud penderfyniadau ynghylch ffurf a lefel cyflwyno gwasanaethau yn y dyfodol. Mae newidiadau bychain, graddol i gyflwyno gwasanaethau yn cael eu gwneud ar lefel reolaethol a gweithredol fel rhan o wneud penderfyniadau gweithredol arferol. Fodd bynnag, mae llywodraethiant da wedi'i gefnogi gan gynllunio effeithiol a phrosesau cadarn yn hanfodol wrth bennu newidiadau arwyddocaol i wasanaethau. Mae penderfyniadau o'r fath yn aml yn ddadleuol, yn cynhyrchu cryn ddiddordeb lleol, a gallant gael cryn effaith ar yr unigolion a'r grwpiau yr effeithir arnynt.

3 Ers Ebrill 2016, mae gofyn i gynghorau gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (Deddf LlCD) a'r Canllawiau Statudol cysylltiedig. Dywed y Canllawiau Statudol: 'Gyda'i gilydd, bwriadwyd i'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio a ddarperir gan y Ddeddf gefnogi a chyflwyno gwasanaeth cyhoeddus sydd yn cwrdd ag anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion hwy'.[2] Mae'r ddeddfwriaeth hon yn pwysleisio pwysigrwydd llywodraethiant effeithiol er mwyn cyrraedd nod llesiant.

4 Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethiant Cyngor Dinas Caerdydd (y Cyngor) o ran pennu newidiadau arwyddocaol mewn gwasanaethau. Yr ydym yn diffinio hyn fel unrhyw newid arwyddocaol wrth gyflwyno gwasanaethau a/neu unrhyw newid arwyddocaol ym mhrofiad defnyddwyr gwasanaeth allanol o'r gwasanaethau. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, y modd mae'r gwasanaeth yn cael ei gyflwyno, lefel y gwasanaeth a ddarperir, a yw'r gwasanaeth ar gael, neu gost y gwasanaeth.

[1] Ffynhonnell: **Delivering Good Governance definition: CIPFA/SOLACE Delivering Good Governance in Local Government: Framework 2007**

[2] Ffynhonnell: **Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol: Canllawiau Statudol ar Ddeddf Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

5 O gymryd fframwaith diwygiedig y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) ar gyfer ‘cyflwyno llywodraethiant da mewn llywodraeth leol’ fel safon briodol, mae’r adolygiad hwn yn rhoi gwaelodlin i’r Cyngor ar gyfer cynllunio mwy o welliannau. Yn yr asesiad hwn, a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod Medi i Dachwedd 2016, i fod yn sail o wybodaeth i’n hasesiad o drefniant cyffredinol y Cyngor i ddatblygu a phennu newidiadau gwasanaeth, fe wnaethom edrych ar agweddau o drefniadau gwneud penderfyniadau yng nghyswllt amrywiaeth o gynigion am newidiadau arwyddocaol i wasanaethau. Ymysg yr enghreifftiau o newidiadau i wasanaethau, yr oedd:

- Strategaeth Gwastraff diwygiedig;
- Model Cyflwyno Amgen (MCA) ar gyfer Stadiwm Chwaraeon Ryngwladol Caerdydd (SChRC);
- MCA ar gyfer canolfannau hamdden;
- MCA ar gyfer gwasanaethau seilwaith;
- MCA ar gyfer dau leoliad chwaraeon; a
- Gwell digideiddio gwasanaethau a thaliadau.

6 Ni wnaethom edrych yn fanwl ar bob un o’r penderfyniadau am newid gwasanaeth unigol, ond yn hytrach eu defnyddio fel esiamplau i ddysgu ohonynt a bod yn sail i’r modd mae’r Cyngor yn mynd ati i wneud penderfyniadau yng nghyswllt newidiadau i’r gwasanaeth.

7 Yn yr adolygiad hwn, daethom i’r casgliad fod **gan y Cyngor fframwaith clir ar gyfer newidiadau sylweddol i wasanaethau wedi ei gefnogi trwy wella llywodraethiant, ond gellid cymhwyso’r trefniadau yn fwy cyson.**

# Cynigon ar gyfer gwella

### Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

Mae’r tabl isod yn gosod allan y meysydd gwella a nodwyd trwy ein hadolygiad.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| Gellid cryfhau trefniadau llywodraethiant y Cyngor trwy: | |
| C1 | Sicrhau fod gwybodaeth sydd yn cefnogi cynigion am newid i wasanaethau yn gyson yn cynnwys dewisiadau ac yn gosod allan yn glir y dull o fantoli’r deilliannau. |
| C2 | Osod allan yn glir y trefniadau ar gyfer monitro effaith pob newid i wasanaeth. |

# Adroddiad manwl

## Mae gan y Cyngor fframwaith clir ar gyfer newidiadau sylweddol i wasanaethau wedi ei gefnogi trwy wella llywodraethiant, ond gellid cymhwyso’r trefniadau yn fwy cyson

### Mae Rhaglen Ddatblygu Sefydliadol y Cyngor yn rhoi fframwaith clir i yrru a llunio newid diwylliant a gwasanaeth arwyddocaol

8 Ym mis Mai 2014, sefydlodd y Cyngor Raglen Ddatblygu Sefydliadol (RhDdS), ‘a fwriadwyd i ail-ffurfio’r Cyngor mewn ymateb i nifer o heriau, gan gynnwys y dirywiad amlwg yn sefyllfa ariannol y Cyngor, pwysau galwadau ar wasanaethau, a pherfformiad annigonol nifer o wasanaethau statudol’[3].

9 Rhaglen dreigl dair-blynedd yw’r RhDdS, sy’n rhoi fframwaith i’r Cyngor yrru a llunio newidiadau arwyddocaol i wasanaethau, ac ystyried unrhyw faterion traws-wasanaeth. Er enghraifft, mae’r Cyngor yn ceisio bod yn drawsnewidiol yn ei ddefnydd o dechnoleg ddigidol i wella effeithiolrwydd y gwasanaeth gan ei bod yn hanfodol i unrhyw systemau newydd fod yn gydnaws ar draws amrywiaeth o wasanaethau ac adrannau’r Cyngor.

10 Mae’r RhDdS yn seiliedig ar yr egwyddorion cydweithredol a’r amcanion lefel-uchel a ganlyn:

- ehangu cyfleoedd i bobl a chymunedau lunio gwasanaethau o amgylch eu hanghenion;
- nodi modelau cyflwyno i gwrdd â phwysau’r galw ac adlewyrchu gwirioneddau cyllidebol;
- nodi cyfleoedd am fwy o arbedion effeithlonrwydd trwy well cydweithredu mewnol ac allanol, integreiddio cyflwyno gwasanaethau, a lleihau dyblygu ymdrechion ac adnoddau;
- cryfhau yn sylweddol berfformiad rheolwyr, datblygu’r gweithlu a threfniadau ymwneud; a
- hybu bod yn agored trwy fwy o ymwneud â dinasyddion a rhannu gwybodaeth, gwneud y broses o gymryd penderfyniadau yn dryloyw, a rhoi cyfleoedd cliriach i bobl gymryd rhan yn y prosesau o wneud penderfyniadau.

[3] Ffynhonnell: Adroddiad Cabinet, **Cyfoesiad am y Rhaglen Ddatblygu Sefydliadol**, 16 Mehefin 2016

11 Er m ai'r RhDdS yw'r cyfrwng allweddol i yrru a llunio trawsnewid yn y Cyngor, nid oes meini prawf wedi eu ffurfioli i bennu pa newidiadau gwasanaeth sydd yn y RhDdS. Dywedodd uwch swyddogion fod digon o gamau rheoli, craffu a herio trwy gyfrwng Bwrdd y RhDdS oedd yn goruchwylio, i sicrhau fod amcanion ac egwyddorion allweddol yn cael eu hystyried heb fod angen meini prawf ar wahân i bennu pa newidiadau gwasanaeth sy'n cael eu cynnwys yn y RhDdS.

12 Mae cyswllt clir rhwng y RhDdS â Chynllun Corfforaethol y Cyngor am 2016-18. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn gosod allan uchelgais a blaenoriaethau allweddol y Cyngor. 'Gweithio gyda'n gilydd i drawsnewid gwasanaethau' yw un o'u pedwar blaenoriaeth gorfforaethol. Mae gan y Cyngor dri amcan gwella i gefnogi'r flaenoriaeth gorfforaethol, gydag un yn canolbwyntio ar ddylunio, cyflwyno a chomisiynu rhai o wasanaethau'r cyngor lle mae'r gwaith sydd ei angen i gyflwyno'r RhDdS.

## Mae trefniadau llywodraethiant ac atebolrwydd o ran newidiadau arwyddocaol mewn gwasanaethau yn glir ac yn cael eu deall yn dda

13 Sefydlodd y Cyngor drefniadau llywodraethiant effeithiol i gefnogi'r RhDdS. Mae hyn yn cynnwys Bwrdd RhDdS i oruchwylio rheoli a monitro'r rhaglen. Aelodau'r bwrdd hwn yw'r Uwch Dîm Rheoli (UDRh). Mae'r UDRh yn cyfarfod yn wythnosol, gydag un cyfarfod y mis wedi ei neilltuo i adolygu cynnydd y RhDdS. Mae'r trefniadau llywodraethiant hefyd yn cynnwys dau fwrdd rhaglen i gefnogi Bwrdd RhDdS, sef y Bwrdd Ailffurfio Gwasanaethau a'r Bwrdd Galluogi a Chomisiynu. Mae'r ddau yn cyfarfod yn fisol ac yn goruchwylio'r holl brosiectau newid gwasanaeth yn y RhDdS ac yn adrodd am gynnydd i'r Bwrdd RhDdS. Mae deg portffolio ar draws y ddau fwrdd rhaglen. Mae pob portffolio yn cynnwys nifer o brosiectau, pob un a bwrdd prosiect, prif weithredwr prosiect, a rheolwr prosiect. Adeg yr adolygiad hwn ym mis Hydref 2016, yr oedd oddeutu 45 prosiect unigol yn y RhDdS. Mae'r swyddogion a'r aelodau yn glir ynghylch y trefniadau llywodraethiant hyn.

14 Sefydlodd y Cyngor hefyd Fwrdd Adolygu Buddsoddiadau (BAB) i ystyried a chymeradwyo pob rhaglen a phrosiect sydd ag oblygiadau ariannol. Mae'r Bwrdd Adolygu Buddsoddiadau yn derbyn cyfoesiadau am brosiectau penodol yn ôl y galw. Er enghraifft, ystyriodd y BAB y dewisiadau oedd yn Strategaeth Gwastraff y Cyngor gan y byddai unrhyw newid ym maint y cynhwysydd gwastraff gweddilliol yn gofyn am fuddsoddiad cyfalaf.

15 Ymrwymodd y Cyngor fwy o adnoddau o ran swyddogion i gefnogi newid gwasanaeth trwy greu Tîm RhDdS canolog. Yr oedd 24 o swyddogion yn y Tîm RhDdS adeg yr adolygiad hwn ym mis Hydref 2016. Mae'r Tîm RhDdS yn cynnig cyngor a chefnogaeth i'r gwasanaethau hynny sy'n gweithredu newidiadau i'r gwasanaeth. Adnabod, datblygu a gweithredu newid i wasanaethau yw cyfrifoldeb y rheolwyr gwasanaeth. Mae'r Bwrdd RhDdS yn rhoi trosolwg a chyfeiriad

strategol, ac yn rhoi sail o wybodaeth i'r Rheolwr RhDdS a'r Tîm RhDdS yn ehangach.

16 Nod y Bwrdd RhDdS yw gofalu nad yw newidiadau gwasanaeth yn cael eu cyflwyno fel digwyddiadau ar eu pennau eu hunain, ac y mae ymwneud yr UDRh fel Bwrdd RhDdS yn lleihau'r risg hon. Nododd y staff a gyfwelwyd gennym ni fanteision y trefniant hwn. Mae gan bob aelod o'r UDRh drosolwg o'r holl newidiadau gwasanaeth arwyddocaol ar draws y Cyngor a gallant adnabod cynigion trawsadrannol yn gynnar. Y Cabinet sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ar gynigion i newid gwasanaeth.

17 Mae craffu yn cael ei weld fel adnodd gwerthfawr gan swyddogion ac aelodau i herio cynnydd cyflwyno'r RhDdS a chynigion am newid gwasanaethau unigol. Mae'r pwyllgor craffu perthnasol yn derbyn adroddiadau am gynigion am newidiadau arwyddocaol i wasanaethau er mwyn craffu arnynt cyn dod i benderfyniad. Mae hyn yn caniatáu i bwyllgorau craffu weld cynnydd y dewisiadau am newid gwasanaeth ar wahanol gyfnodau. Mae cadeiryddion pwyllgorau craffu yn glir am eu rôl yn y trefniadau llywodraethiant.

18 Mae deialog cynnar rhwng uwch swyddogion ac aelodau'r Cabinet yn digwydd ar gynigion am newid gwasanaethau. Mae'r Cabinet hefyd yn cynnal cyfarfodydd cabinet 'anffurfiol' lle trafodir materion a strategaethau sy'n debyg o ymddangos er mwyn sefydlu a nodi risgiau neu gyfleoedd yn gynnar yn y broses o newid.

19 Mae Swyddog Monitro'r Cyngor yn aelod o'i UDRh ac yn mynychu cyfarfodydd misol Bwrdd RhDdS. Er mwyn sicrhau cydymffurfio â gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol, mae adroddiadau i bwyllgorau craffu, Cabinet a'r Cyngor yn cael eu gwirio fel mater o drefn gan y Swyddog Monitro.

20 Canfu ein hadolygiad fod swyddogion ac aelodau yn deall eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau yng nghyswllt gwneud penderfyniadau am newidiadau i wasanaethau. Cadarnhawyd hyn gan ganlyniadau ein harolwg o aelodau etholedig ac uwch-swyddogion. Yr oedd wyth ar hugain o'r 30 o uwch-swyddogion a ymatebodd i'n harolwg naill ai yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn deall eu swyddogaeth a'u cyfrifoldeb ynghylch gwneud penderfyniadau am newidiadau i wasanaethau.Yr oedd dau ar bymtheg o'r 18 aelod etholedig a ymatebodd hefyd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn deall eu swyddogaethau ynghylch gwneud penderfyniadau am newidiadau i wasanaethau.

## Mae gan y Cyngor broses i fantoli cynigion am newid sylweddol mewn gwasanaethau; fodd bynnag, nid yw'n cael ei gymhwyso'n gyson

21 Mae amred a nifer y dewisiadau a ystyrir gan y Cyngor yn amrywio rhwng y meysydd gwasanaeth unigol sydd dan sylw ar gyfer newid. I newidiadau gwasanaeth megis y Model Cyflwyno Amgen (MCA) am wasanaethau seilwaith, MCA am ganolfannau hamdden a'r adolygiad o gasglu gwastraff ac ailgylchu, ystyriwyd nifer o ddewisiadau. Fodd bynnag, ymddengys bod y Cyngor wedi

ystyried un dewis yn unig ar gyfer trosglwyddo Stadiwm Chwaraeon Ryngwladol Caerdydd (SChRC). Am ‘wella digideiddio gwasanaethau a thaliadau’, nid oedd modd i ni weld a ystyriwyd unrhyw ddewisiadau eraill oherwydd nad oedd achos busnes i’w gefnogi.

22 Ar gyfer rhai newidiadau gwasanaeth arwyddocaol, megis y MCA am wasanaethau seilwaith a chanolfannau hamdden ac ar gyfer y Strategaeth Gwastraff, cafodd aelodau wybodaeth gynhwysfawr fyddai’n sail i graffu ar y cynnig a dod i benderfyniad. Yr oedd y rheolwyr cyfrifol yn mynychu cyfarfodydd craffu a Chabinet ar fwy nag un achlysur i roi’r newyddion diweddaraf am gynnydd.

23 Wrth i gynigion am newid gwasanaethau gael eu datblygu, mae dewisiadau yn cael eu mantoli a’u gostwng mewn nifer. Gall craffu herio’r cynnig am y gwasanaeth wrth iddo ddatblygu, a bydd y Cabinet yn derbyn adroddiadau cyfoes er mwyn penderfynu. Mae adroddiadau am newid gwasanaethau i’r pwyllgorau craffu a’r Cabinet ar gael ar wefan y Cyngor. Yn ystod gwaith maes ein hadolygiad, dywedodd yr aelodau fod yr adroddiadau yn rhoi’r holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn herio a/neu wneud penderfyniadau.

24 Datblygodd y Cyngor fethodoleg gwerthuso am MCA newidiadau gwasanaeth. Mae’r fethodoleg hon, a’r metrics sgorio sy’n ei gefnogi, yn gosod allan y meini prawf gwerthuso a’r cwestiynau i’r swyddogion ymdrin â hwy. Mae’r cwestiynau yn ymwneud a risg, cyfleoedd am incwm, cadw dylanwad wrth wneud penderfyniadau, hyblygrwydd i newid cyflwyno gwasanaeth yn y dyfodol, a pherfformiad gweithredol. Mae’r fethodoleg yn rhoi agwedd strwythuredig a chyson at asesu pob MCA a sicrhau ar yr un pryd fod y Cyngor yn ymdrin â materion allweddol cyllid, risg, rheoli, a pherfformiad pob dewis.

25 Defnyddiodd y Cyngor y fethodoleg werthuso hon i fantoli’r dewisiadau newid gwasanaeth i’r MCA am ganolfannau hamdden a gwasanaethau seilwaith. Nid oes gan y Cyngor feini prawf corfforaethol i fantoli’r newidiadau gwasanaeth hynny nad ydynt yn cael eu hystyried fel dulliau cyflwyno amgen.

26 Agwedd y Cyngor yw, os gwneir gwaith i ddatblygu strategaeth, polisi neu weithgaredd sy’n debyg o gael effaith ar bobl, cymunedau neu ddefnydd tir, fod nifer o ofynion statudol y mae’n rhaid eu hystyried. Felly, cynlluniodd y Cyngor erfyn sgrinio statudol i’w gwblhau a’i atodi i adroddiadau’r Cabinet. Mae effaith y newidiadau, gan dalu sylw dyledus i ddatblygu cynaliadwy, yn rhan o’r erfyn sgrinio statudol hwn. Mae rhai newidiadau gwasanaeth a adolygwyd fel rhan o’r gwaith hwn wedi cwblhau’r erfyn sgrinio statudol hwn, ond nid pob un. Ar hyn o bryd, mae’r Cyngor yn adolygu ac yn ail-ddylunio’r erfyn sgrinio hwn yn ‘erfyn dinas i fyw ynddi’, a fydd yn cynnwys gofynion Deddf LlCD[4].

[4] Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff sector cyhoeddus rhagnodedig yn gweithredu yn ôl yr egwyddor datblygu cynaliadwy ac yn nodi y pum ffordd ganlynol o weithio y mae’n rhaid i'r cyrff hynny eu hystyried er mwyn helpu i gynorthwyo datblygu cynaliadwy: tymor hir, atal, integreiddio,

27 Yr oedd lefel dda o ddealltwriaeth ymysg uwch swyddogion ac aelodau am Ddeddf LlCD a Deddf Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Yr oeddent yn gallu cyfleu sut yr oedd egwyddorion datblygu cynaliadwy o gymorth wrth ystyried materion am y tymor hwy ynghylch newid gwasanaethau a gofalu bod y rhain yn cael eu gwreiddio mewn cynlluniau yn gynnar.

28 Mae'r Cyngor wedi cwblhau asesiadau effaith cydraddoldeb ar gyfer y rhan fwyaf o'r cynigion am newid gwasanaethau fel rhan o'r adolygiad hwn. Mae gweithdy 'cyflwyniad i gydraddoldeb' ar y gweill fel rhan o raglen gynefino i aelodau ym Mai 2017 yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol.

29 Mae cofrestr o benderfyniadau pwyllgorau a swyddogion ar gael ar wefan y Cyngor. Mae papurau'r Cyngor, y Cabinet, y pwyllgor craffu a phwyllgorau eraill ar gael ar-lein.
Mae cyfarfodydd llawn y Cyngor yn cael eu gwe-ddarlledu, ac y mae gan y Cyngor gynllun peilot ar hyn o bryd i we-ddarlledu cyfarfodydd pwyllgorau craffu.

30 Mae'r holl aelodau yn cael eu hysbysu trwy e-bost am benderfyniadau'r Cabinet; fodd bynnag, datgelodd yr arolwg o aelodau etholedig mai dim ond 10 o'r 18 aelod etholedig a ymatebodd oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf ei bod yn hawdd dod o hyd i benderfyniadau allweddol. Yr oedd ymateb yr uwch swyddogion yn fwy cadarnhaol, gyda 22 o'r 30 uwch swyddog a ymatebodd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn hawdd iddynt ddod i wybod am benderfyniadau allweddol. Felly, er bod y Cyngor wedi gwneud gwelliannau o ran cyhoeddi pob penderfyniad ar wefan y Cyngor ac e-bostio penderfyniadau'r Cabinet at yr holl aelodau etholedig, efallai bod diffyg ymwybyddiaeth fod y wybodaeth ar gael.

## Mae'r Cyngor yn mynd ati i ymwneud â rhanddeiliaid fel sail o wybodaeth i wneud penderfyniadau

31 Dadl Caerdydd yw rhaglen y Cyngor o ymwneud â'r gymuned, ac y mae'n un o nodweddion sylfaenol y RhDdS. Mae'n cynnal sgwrs gyson gyda dinasyddion, cymunedau a phartneriaid. Mae'r agwedd at ymgynghori yn amrywio, o weithdai galw heibio, dadleuon ar gyfryngau cymdeithasol, ac ymwneud ar y stryd. Mae'r gwahanol ddulliau o ymwneud a ddefnyddir yn amlygu ymrwymiad y Cyngor i gael yr ymateb mwyaf ac yn dangos ymrwymiad i ymwneud lleol.

cydweithio a chynnwys. Ceir rhagor o wybodaeth am y Ddeddf ar wefan Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

32 Mae'r Cyngor hefyd yn ceisio barn am foddhad trigolion gyda gwasanaethau'r Cyngor trwy arolwg blynyddol Holwch Caerdydd. Cynhwyswyd cwestiynau ynghylch newidiadau penodol i wasanaethau yn Holwch Caerdydd a Dadl Caerdydd. Er enghraifft, yr oedd Dadl Caerdydd 2015 yn cynnwys cwestiynau am ddyfodol trefniadau cyflwyno'r hamdden, trefniadau gwastraff ac ailgylchu a gwasanaethau seilwaith, a chafodd y canlyniadau eu cynnwys yn yr adroddiadau terfynol i'r Cabinet. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal ymgynghoriadau ar wasanaethau penodol. Er enghraifft, bu'r Cyngor yn ymgynghori â grwpiau cymunedol, timau gwastraff, aelodau, contractwyr, ac yn cynnal arolwg post ar hap o 3,000 o drigolion wrth adolygu ei wasanaeth gwastraff ac ailgylchu.

33 Mae gwella ymwneud ac ymgynghori â'r staff hefyd yn un o raglenni'r RhDdS. Mae'r Cyngor yn cynnal sioeau ffyrdd i weithwyr sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a'r UDRh a chyfarfodydd staff gyda'r Prif Weithredwr fel rhan o sesiynau 'Dweud eich Dweud'. Crëwyd Rhwydwaith Llysgenhadon staff. Hefyd, mae'r Cyngor yn ymwneud nag undebau llafur ar gynigion newid gwasanaethau a all effeithio ar y staff, er enghraifft, MCA ar gyfer gwasanaethau hamdden a gwasanaethau seilwaith a throsglwyddo SChRC i Goleg Caerdydd a'r Fro.

34 Ym mis Tachwedd 2016, lansiodd y Cyngor hefyd 'ap staff' newydd i wella cyfathrebu â'r staff. Adeg yr adolygiad hwn, newydd ei lansio yr oedd yr ap, felly nid oedd modd i ni bennu pa mor effeithiol ydoedd; fodd bynnag, mae'r ap yn llwyfan arall y gall y Cyngor ei ddefnyddio i ymgynghori a'r staff am unrhyw gynigion yn y dyfodol i newid neu drawsnewid gwasanaeth.

35 Cafodd holl aelodau'r Cyngor gyfle i adolygu'r cynigion am arbedion ar gyfer 2016-17 a gwneud sylwadau amdanynt; yr oedd a wnelo rhai o'r rhain â newidiadau gwasanaeth, a gallent wneud hyn trwy gyfarfodydd craffu a chyfarfodydd grwpiau gwleidyddol. Yr oedd y farn o'r cyfarfodydd hyn wedi ei chynnwys yn y papurau ar gyfer cyfarfod y Cyngor ar 25 Chwefror 2016, pryd y cymeradwywyd cyllideb 2016-17.

36 Mae blaen-raglenni gwaith ar gael ar gyfer pob un o bum pwyllgor craffu'r Cyngor a'r Cabinet. Bob blwyddyn, mae pob pwyllgor craffu yn derbyn rhestr o faterion posib gan y swyddogion i'w dewis er mwyn eu cynnwys yn y blaen-raglenni gwaith. Mae'r agwedd hon yn hyblyg wrth i bob cyfarfod craffu ystyried y 'ffordd ymlaen' ar gyfer unrhyw eitem a drafodir ar yr agenda. Mae hyn yn caniatáu i'r aelodau ail-ffurfio'r blaen-raglen waith i adlewyrchu unrhyw faterion a all godi.

37 Mae'r Cabinet yn gweithredu rhaglen waith dreigl o dri mis. Mae'r blaen-raglen waith i'w gweld yn rhwydd ar adran y Cynghorwyr a Chyfarfodydd ar y wefan; serch hynny, nid yw'r blaen-raglenni gwaith craffu ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd.

## Mae'r Cyngor yn monitro ei Rhaglen Ddatblygu Sefydliadol fel mater o drefn, ond nid yw gwerthuso effaith newidiadau i wasanaethau unigol wedi ei ddatblygu cystal

38 Mae'r Cyngor yn adolygu ac yn adnewyddu i RhDdS bob blwyddyn. Mae ei bwyllgor craffu Polisi, Adolygu a Pherfformiad (PAAPh) a'r Cabinet yn derbyn yr adolygiad blynyddol. Cynhaliodd y Cyngor ei adolygiad diwethaf yn ystod misoedd Ebrill a Mai 2016. Derbyniodd y Pwyllgor PAAPh a'r Cabinet adroddiad ar ganlyniad yr adolygiad hwn ym mis Mehefin 2016. 2016-17 yw blwyddyn olaf y RhDdS tair-blynedd presennol. Bwriada'r Cyngor gomisiynu adolygiad annibynnol o'r RhDdS yn 2017.

39 Nid yw'r trefniadau monitro, na'r hyn y mae angen i'r Cyngor ei fonitro er mwyn asesu effaith ei benderfyniadau am newidiadau mewn gwasanaethau, yn wastad wedi eu datgan yn glir mewn adroddiadau nac mewn achosion busnes i bwyllgorau craffu na'r Cabinet.

40 Mae'r MCA ar gyfer canolfannau hamdden yn enghraifft o adeg pan gytunodd y Cyngor a Greenwich Leisure Limited (GLL) ar y mesurau a'r targedau perfformiad, gyda'r Cyngor yn sefydlu swyddogaeth cleient i fonitro a rheoli'r perfformiad a'r contract gyda GLL. Fodd bynnag, nid oedd trefniadau monitro cyffelyb ar gael yn yr adroddiad i eithrio Stadiwm Chwaraeon Ryngwladol Caerdydd o'r broses gaffael hamdden ehangach a throsglwyddi ei rheolaeth i Goleg Caerdydd a'r Fro.

41 Er hynny, y mae craffu yn mynd ati i nodi sut y mae eisiau monitro newid i wasanaeth fel rhan o'i graffu cyn y cymerir penderfyniad. Mae cyfoesiadau am gynnydd o ran newid mewn gwasanaeth wedyn wedi eu gosod allan ym mlaen-raglenni gwaith y pwyllgorau craffu.

## Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gryfhau llywodraethiant a gwneud penderfyniadau, ac wedi ymateb yn gadarnhaol i'n hadroddiadau archwilio

42 Fe wnaethom gynnal Asesiad Corfforaethol yn y Cyngor yn 2014 a chwblhau Asesiad Corfforaethol Dilynol yn 2015. Fe wnaethom adolygu trefniadau gwneud penderfyniadau fel rhan o'r ddau adolygiad hwn. Yn 2014, daethom i'r casgliad nad oedd rhai prosesau, a fwriadwyd i sicrhau llywodraethiant da, yn cael eu gweithredu, a bod y prosesau o wneud penderfyniadau yn aneffeithlon a heb dryloywder.

43 Mewn ymateb, dyma wnaeth y Cyngor:

- creu'r RhDdS yn 2014; a

- datblygu Datganiad Gweithredu yn 2016.[5]

44 Ym mis Gorffennaf 2015, adolygodd y Cyngor ei ddau brif bortffolio gwaith, a'u hail-ffurfio: Gwasanaethau Galluogi a Chomisiynu, ac Ail-ffurfio Gwasanaethau. Elfen allweddol o'r portffolio Galluogi a Chomisiynu oedd cryfhau llywodraethiant ac ymwneud er mwyn cefnogi gwneud gwell penderfyniadau.

45 Yn dilyn adolygiad y Cyngor o'r RhDdS yn 2016, ail-broffiliodd y Cyngor yr elfen Llywodraethiant ac Ymwneud yn Berfformiad a Llywodraethiant er mwyn ymwneud yn uniongyrchol a llawer o'r Cynigion am Wella o adroddiad Dilynol ein Hasesiad Corfforaethol.

46 Mae'r Cyngor wedi datblygu Hunanasesiad Rheoli Risg (HARhR) i roi sicrwydd ar brosiectau RhDdS yn ystod gwahanol gyfnodau eu heinioes. Mae'r adran Archwilio Mewnol wedi cynnal cynllun peilot o'r HARhR ar rai o brosiectau RhDdS. Rhoes adroddiad chwarter dau yr Archwilwyr Mewnol am 2016-17 farn archwilio o 'foddhaol' yn dilyn HARhR o'r MCA ar gyfer gwasanaethau seilwaith, gweithio hyblyg, gweithio symudol a rhesymoli a rhestru swyddfeydd.

47 Mae gofyn i bob rhaglen a phrosiect o fewn y RhDdS ddatblygu a chynnal cofrestr risg gyfoes. I rai o'r newidiadau gwasanaeth a adolygwyd, defnyddir log i gofnodi ac olrhain risgiau i raglenni a phrosiectau. Mae'r log yn cynnwys risgiau a nodwyd dros einioes y rhaglen neu'r prosiect. Cymhwysir graddio risg gweddilliol, camau lliniaru at y dyfodol a graddio risg gweddilliol rheoledig i'r risgiau unigol.

[5] Datganiad Gweithredu a gynhyrchwyd gan y Cyngor mewn ymateb i adroddiad Dilynol yr Asesiad Corfforaethol. Mae'r Datganiad Gweithredu yn cynnwys y camau a'r amserlenni allweddol ar gyfer ymdrin â'r argymhelliad statudol a chynigion am wella.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru